Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**

# Trosolwg o Astudiaethau Achos Effaith REF 2014 sy’n cyfeirio at Ymgysylltu â'r Cynulliad

## Briff Ymchwil

Rhagfyr 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru/ymchwil**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6317**
E-bost: **Graham.Winters@Cynulliad.Cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Blog: **SeneddYmchwil.blog**



**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Senedd Ymchwil**


# Trosolwg o Astudiaethau Achos Effaith REF 2014 sy'n cyfeirio at Ymgysylltu â'r Cynulliad

## Briff Ymchwil

Rhagfyr 2018


**Awduron:**
Dr Lindsay Walker, Cydymaith Ymchwil, Prifysgol Caerdydd a Graham Winter, Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys

**Cyflwyniad ........................................................................................ 1**

**Trosolwg o Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil y DU (REF)......... 2**

Y cylch Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil nesaf: sef, REF 2021.............. 3

**Methodoleg........................................................................................ 4**

Rhwystrau o ran y dadansoddiad ......................................................... 4

**Trosolwg o astudiaethau achos sy'n amlinellu ymgysylltiad â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.......................... 5**

Ardaloedd disgyblaeth................................................................................ 5

Lleoliadau daearyddol sefydliadau addysg uwch sy'n cyflwyno ............ 8

**Dulliau ymgysylltu â Chynulliad Cenedlaethol Cymru ............ 10**

Safleoedd ymgysylltu y Cynulliad.......................................................10

Dulliau ymgysylltu ..................................................................................... 11

Llwybrau i ymgysylltu...................................................................................12

**Canlyniadau ymgysylltu â Chynulliad Cenedlaethol Cymru....14**

Canlyniadau sy'n ymwneud â newidiadau i ddeddfwriaeth ..................14

Canlyniadau sy'n ymwneud â pholisi ................................................. 15

**Trosolwg o Astudiaethau Achos Effaith REF 2014 sy'n cyfeirio at ymgysylltu â'r Cynulliad:** Briff Ymchwil

# Cyflwyniad

Ers 1986, mae sefydliadau addysg uwch ledled y DU wedi cael eu gwerthuso o ran ansawdd eu hymchwil. Am y tro cyntaf yn 2014, roedd y gwerthusiad cenedlaethol hwn yn cynnwys asesiad o'r effaith anacademaidd a oedd yn deillio o'r gwaith ymchwil. Cyflwynodd sefydliadau addysg uwch eu tystiolaeth am effaith ymchwil ar ffurf 'astudiaethau achos effaith', sydd bellach ar gael i'r cyhoedd fel cronfa ddata chwiliadwy.

Mae'r papur briffio hwn yn edrych ar yr astudiaethau achos effaith a oedd yn amlinellu'n glir ymgysylltiad â Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Y nod yw deall y llwybrau ar gyfer cael effaith gyda'r Cynulliad (fel y'i cyflwynwyd yn 2014), a thrwy hynny nodi mecanweithiau cyffredin ar gyfer ymgysylltu.

Mae'r prif ganfyddiadau yn cynnwys:

- Ymchwil wedi'i gategoreiddio fel **gwyddorau cymdeithasol** a gyfrannodd y mwyafrif o'r astudiaethau achos a oedd yn amlinellu ymgysylltiad â'r Cynulliad yn glir.
- Gan **sefydliadau addysg uwch yng Nghymru** y cyflwynwyd y mwyafrif o'r astudiaethau achos a oedd yn amlinellu ymgysylltiad yn glir.
- **Pwyllgorau'r Cynulliad** oedd y safle ymgysylltu yr adroddwyd yn ei gylch amlaf.
- **Rhoi tystiolaeth** oedd y mecanwaith ymgysylltu yr adroddwyd yn ei gylch amlaf.
- Hefyd amlinellwyd **canlyniadau polisi a chanlyniadau deddfwriaethol** sylweddol yn sgîl ymgysylltu â'r Cynulliad, gan gynnwys gwneud argymhellion polisi, gweithredu deddfwriaeth newydd ac adolygu penderfyniad i weithredu deddfwriaeth.

# Trosolwg o Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil y DU (REF)

Mae Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil y DU (REF) yn broses adolygu arbenigol sy'n gwerthuso ansawdd gwaith ymchwil yn sefydliadau addysg uwch y DU. Mae rhan o'r asesiad cenedlaethol hwn yn cynnwys gwerthuso effaith anacademaidd ymchwil, er mwyn ceisio canfod y gwerth a'r buddion i'r gymdeithas ehangach. Cyflwynwyd y REF yn 2014 i ddisodli'r Ymarfer Asesu Ymchwil blaenorol a gynhaliwyd rhwng 1986 a 2008. REF 2014 oedd y tro cyntaf y gofynnwyd i sefydliadau addysg uwch y DU ddangos cyrhaeddiad ac arwyddocâd yr effaith anacademaidd. Gan fod dyrannu arian ymchwil yn dilyn, yn rhannol, ar sail sgoriau gwerthuso yn hyn o beth, rhoddodd hyn gymhelliad ariannol i brifysgolion ddangos effaith y gwaith ymchwil a gyflawnwyd ganddynt.

Cyflwynwyd y REF gan y pedwar cyngor cyllido addysg uwch yn y DU: sef, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (**CCAUC**), Cyngor Cyllido'r Alban (**SFC**), yr Adran Cyflogaeth a Dysgu, Gogledd Iwerddon (**DEL**), a'r hyn oedd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE) (bellach, caiff dyletswyddau ymchwil a chyfnewid gwybodaeth (HEFCE) eu hysgwyddo gan gyngor newydd o'r enw **Ymchwil Lloegr.**

O ran REF2014, cyflwynodd **154 sefydliad addysg uwch** eu gwaith ymchwil ar gyfer ei werthuso ar draws y 36 maes disgyblu a ddiffiniwyd yn flaenorol, a elwir yn Unedau Asesu. Cafodd y 36 o Unedau Asesu hyn eu categoreiddio'n fras i bedwar prif faes gwyddoniaeth, a elwir yn Baneli A i D. Roedd Panel A yn canolbwyntio ar y gwyddorau bywyd, Panel B yn canolbwyntio ar y gwyddorau peirianneg a ffisegol, Panel C yn canolbwyntio ar y gwyddorau cymdeithasol a Phanel D yn canolbwyntio ar y celfyddydau a'r dyniaethau (gweler Tabl 1 i weld y rhestr lawn o ran yr Unedau Asesu a Phaneli cyfatebol). Roedd is-banel o arbenigwyr o fewn pob Uned Asesu yn gwerthuso'r cyflwyniadau ymchwil.



**Trosolwg o Astudiaethau Achos Effaith REF 2014 sy'n cyfeirio at ymgysylltu â'r Cynulliad:** Briff Ymchwil

Ar gyfer REF2014, roedd yn ofynnol i sefydliadau addysg uwch gyflwyno tystiolaeth am effaith gwaith ymchwil, ar ffurf astudiaethau achos. Darparodd pob un o'r pedwar Panel **feini prawf ar gyfer asesu effaith** (PDF, 537KB). Cyflwynwyd **6,975** astudiaeth achos effaith i gyd. Yn ôl y cyfarwyddwyd yn y canllawiau ar y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF), yr astudiaethau achos hyn oedd yr enghreifftiau cryfaf o effaith ar gyfer y sefydliadau addysg uwch a oedd yn cyflwyno, ac roedd yn ofynnol iddynt gysylltu yn uniongyrchol â gwaith academaidd cyhoeddedig sydd '**yn gydnabyddedig yn rhyngwladol**'(PDF, 987KB) o leiaf.

Mae pob un o'r 6,637 o astudiaethau achos nad ydynt wedi'u hailolygu ar gael fel rhai y gellir chwilio amdanynt yn y **gronfa ddata ar-lein**.

I gael manylion yr effaith a gynhyrchir gan brifysgolion Cymru, ewch i **ddadansoddiad o astudiaethau achos REF2014** King's College Llundain, fel y'i comisiynwyd gan **Gymdeithas Ddysgedig Cymru.**

## Y cylch Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil nesaf: sef, REF 2021

Mae'r gwerthusiad REF nesaf wedi'i drefnu ar gyfer 2021. Mae Senedd y DU a'r deddfwrfeydd datganoledig yn yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn awyddus i gefnogi academyddion i ymgysylltu â'u gwaith. Er mis Ionawr 2018, bu cyfeillion o ddeddfwrfeydd y DU yn cydweithio i lywio datblygiad canllawiau a meini prawf asesu y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021. Mae hyn i sicrhau bod aelodau'r paneli REF sy'n asesu'r cyflwyniadau yn deall yn glir beth yw ystyr effaith i gyrff deddfwriaethol y DU.

Fel rhan o hyn, mae'r Cynulliad, ochr yn ochr â Senedd y DU, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon, wedi llunio **nodyn briffio** (PDF, 719KB) ar y cyd, yn rhoi trosolwg o effaith gwaith ymchwil o ran deddfwrfeydd. Cyfeiriwyd at y nodyn briffio hwn yn uniongyrchol yn y **canllawiau drafft ar gyflwyniadau**, ac ym **meini prawf y paneli** a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer REF 2021.

# Methodoleg

Mae'r papur briffio hwn yn canolbwyntio ar edrych ar yr astudiaethau achos a gyflwynwyd gan Sefydliadau Addysg Uwch y DU i REF 2014 sy'n amlinellu ymgysylltiad â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cafwyd yr astudiaethau achos o'r **gronfa ddata ar-lein** gan ddefnyddio termau chwilio. Yn gyntaf, defnyddiwyd termau chwilio sy'n benodol i lywodraethu cenedlaethol Cymru i gynhyrchu'r sampl gychwynnol, gan gynnwys 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 'Cynulliad Cenedlaethol', 'Cynulliad' a 'Llywodraeth Cymru'. Cynhwyswyd 'Llywodraeth Cymru' fel term chwilio i ganfod astudiaethau achos a oedd yn cynnwys cyfeiriad at y Llywodraeth drwy gamgymeriad, yn hytrach na'r Cynulliad. Yn ail, archwiliwyd y sampl gychwynnol hon o astudiaethau achos wedyn am y termau 'Cymru' neu 'yng Nghymru'.

Sefydlwyd a oedd astudiaethau achos yn cyfeirio at y Cynulliad neu at Lywodraeth Cymru. Mae'r papur briffio hwn yn canolbwyntio'n unig ar yr astudiaethau achos a amlinellodd ymgysylltiad â'r Cynulliad yn glir.

## Rhwystrau o ran y dadansoddiad

Mae'r dadansoddiadau yn y papur briffio hwn yn gyfyngedig i'r hyn a oedd wedi'u cynnwys yn y cyflwyniad REF 2014 gwreiddiol. Mae tri o oblygiadau i hyn ar gyfer y canfyddiadau gwaith ymchwil a gynhwysir yn y papur briffio hwn.

- Yn gyntaf, efallai na fydd y termau chwilio a ddefnyddiwyd i greu'r sampl o astudiaethau achos wedi canfod ymgysylltiadau â gwaith ymchwil gyda'r Cynulliad os na chafodd y Cynulliad ei ddisgrifio gan ddefnyddio un o'r termau chwilio neu os oedd cam sillafu.
- Yn ail, cafodd astudiaethau achos eu heithrio o'r sampl lle nad oedd yn glir a oedd yr ymgysylltiad â'r Cynulliad neu â Llywodraeth Cymru.
- Yn drydydd, mae'r cyflwyniadau yn cynnwys dim ond yr hyn yr oedd y sefydliadau addysg uwch yn ystyried fel eu hachosion cryfaf eu heffaith. Nid yw hyn o reidrwydd yn adlewyrchu graddfa neu amrywiaeth lawn yr ymgysylltiad academaidd â'r Cynulliad, nac yn adlewyrchu'r graddau y mae meysydd y Cynulliad yn defnyddio gwaith ymchwil academaidd.

Hefyd, roedd y cyflwyniadau wedi'u cyfyngu i gyfnodau amser penodol. Dim ond yr effaith a oedd yn deillio o waith ymchwil a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod asesu, sef rhwng 1 Ionawr 2008 a 31 Gorffennaf 2013, wedi'i ategu gan waith ymchwil yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ionawr 1993 a 31 Rhagfyr 2013, a oedd yn gymwys i'w gyflwyno.





# Trosolwg o astudiaethau achos sy'n amlinellu ymgysylltiad â Chynulliad Cenedlaethol Cymru

O'r 6,637 o astudiaethau achos Effaith REF heb eu hailolygu sydd ar gael ar y **gronfa ddata ar-lein**, roedd 36 yn amlinellu'n glir ymgysylltiad â'r Cynulliad. Datgelodd dadansoddiad gan Swyddfa Wyddoniaeth a Thechnoleg Senedd y DU (POST) fod **1,282 o astudiaethau achos** yn amlinellu ymgysylltiad â Senedd y DU.

Mae'r adran hon yn adrodd ar feysydd disgyblaeth y 36 astudiaeth achos sy'n cyfeirio at ymgysylltu â'r Cynulliad, a lleoliad daearyddol y sefydliadau addysg uwch sy'n cyflwyno.

**Dylid nodi fod yr ymarfer REF 2014 ond yn trafod ymchwil academaidd a gynhaliwyd rhwng 1 Ionawr 1993 a 31 Rhagfyr 2013, sy'n rhagflaenu mentrau ymgysylltu academaidd mwy diweddar y Cynulliad. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad hwn yn cynnig meincnod defnyddiol er mwyn cymharu lefelau ymgysylltu yn y dyfodol. Mae hefyd yn cynnig rhai enghreifftiau da o le mae ymchwil academaidd wedi cael effaith uniongyrchol ar graffu a datblygu deddfwriaeth/polisi.**

## Ardaloedd disgyblaeth

Canfuwyd astudiaethau achos a gyfeiriodd at ymgysylltu â'r Cynulliad ym mhob un o'r pedwar prif panel pwnc, gyda Phanel C (Gwyddorau Cymdeithasol) yn cyfrannu 58% (21) o'r rhain (gweler Tabl 1). Yn yr un modd, dangosodd dadansoddiad gan POST mai gan Panel C oedd **y rhan fwyaf o astudiaethau achos (45%)** a oedd yn cyfeirio at ymwneud â Senedd y DU.

Cafwyd astudiaethau achos a oedd yn adrodd am ymgysylltiad â'r Cynulliad ar gyfer 19 o'r 36 Unedau Asesu posibl. Sylwch, ers ymarfer REF2014, bod rhagor o feysydd polisi wedi'u datganoli, yn fwyaf diweddar o ganlyniad i **Ddeddf Cymru 2017.**

**Tabl 1**. Nifer yr astudiaethau achos a gyflwynwyd i REF 2014 a oedd yn nodi ymwneud â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

| Y Panel | % Cyfanswm | Asesiad o'r Risg | | Nifer yr Astudiaethau Achos |
|---|---|---|---|---|
| A | 14% | 1 | Meddygaeth Glinigol | 0 |
| | | 2 | Iechyd Cyhoeddus, Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cychwynnol | 2 |
| | | 3 | Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Deintyddiaeth, Nyrsio a Fferylliaeth | 2 |
| | | 4 | Seicoleg, Seiciatreg a Niwrowyddoniaeth | 1 |
| | | 5 | Gwyddorau Biolegol | 0 |
| | | 6 | Amaethyddiaeth, Gwyddoniaeth Milfeddygol a Gwyddoniaeth Bwyd | 0 |
| B | 3% | 7 | Systemau'r Ddaear a Gwyddorau Amgylcheddol | 1 |
| | | 8 | Cemeg | 0 |
| | | 9 | Ffiseg | 0 |
| | | 10 | Gwyddorau Mathemategol | 0 |
| | | 11 | Cyfrifiadureg a Gwybodeg | 0 |
| | | 12 | Peirianneg Awyrennol, Mecanyddol, Cemegol a Gweithgynhyrchu | 0 |
| | | 13 | Peirianneg Drydanol ac Electronig, Meteleg a Deunyddiau | 0 |
| | | 14 | Peirianneg Sifil ac Adeiladu | 0 |
| | | 15 | Peirianneg Gyffredinol | 0 |



**Trosolwg o Astudiaethau Achos Effaith REF 2014 sy'n cyfeirio at ymgysylltu â'r Cynulliad:** Briff Ymchwil

| Y Panel | % Cyfanswm | Asesiad o'r Risg | | Nifer yr Astudiaethau Achos |
|---|---|---|---|---|
| C: | 58% | 16 | Pensaernïaeth, yr Amgylchedd Adeiladu a Chynllunio | 3 |
| | | 17 | Daearyddiaeth, Astudiaethau Amgylcheddol ac Archeoleg | 2 |
| | | 18 | Economeg ac Econometreg | 1 |
| | | 19 | Astudiaethau Busnes a Rheolaeth | 5 |
| | | 20 | Y Gyfraith | 5 |
| | | 21 | Gwleidyddiaeth ac Astudiaethau Rhyngwladol | 2 |
| | | 22 | Gwaith Cymdeithasol a Pholisi Cymdeithasol | 0 |
| | | 23 | Cymdeithaseg | 0 |
| | | 24 | Anthropoleg ac Astudiaethau Datblygu | 1 |
| | | 25 | Addysg | 1 |
| | | 26 | Gwyddorau Chwaraeon ac Ymarfer, Hamdden a Thwristiaeth | 1 |
| D: | 25% | 27 | Astudiaethau Ardal | 0 |
| | | 28 | Ieithoedd Modern ac Ieithyddiaeth | 3 |
| | | 29 | Iaith a Llenyddiaeth Saesneg | 1 |
| | | 30 | Hanes | 1 |
| | | 31 | Y Clasuron | 0 |
| | | 32 | Athroniaeth | 1 |
| | | 33 | Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol | 0 |
| | | 34 | Celf a Dylunio: Hanes, Ymarfer a Theori | 1 |
| | | 35 | Cerddoriaeth, Drama, Dawns a'r Celfyddydau Perfformio | 2 |
| | | 36 | Cyfathrebu, Astudiaethau Diwylliannol a'r Cyfryngau, Llyfrgelloedd a Rheoli Gwybodaeth | 0 |
| | | | Cyfanswm | 36 |

## Lleoliadau daearyddol sefydliadau addysg uwch sy'n cyflwyno


Roedd y mwyafrif (55%) o'r astudiaethau achos a gyfeiriodd at ymgysylltu â'r Cynulliad o Gymru, hynny yw, roedd 20 o'r 36 Sefydliad Addysg Uwch o Gymru (gweler Ffigur 1). Cynrychiolwyd wyth o'r naw prifysgol yng Nghymru (mae'r Brifysgol Agored yn cael ei nodi fel bod yn rhanbarth 'De Ddwyrain' y DU gan y gronfa ddata ar-lein REF), naill ai fel cyflwyniadau unigol neu ran o gyflwyniad ar y cyd. Er enghraifft, roedd cyflwyniad astudiaeth achos Sefydliad Ymchwil Cymru mewn Celf a Dylunio yn cynrychioli Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, Prifysgol De Cymru a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Yn ogystal, canfu astudiaeth POST o astudiaethau achos sy'n cyfeirio at Senedd y DU duedd bod Sefydliadau Addysg Uwch sy'n cyflwyno yn agos at leoliad y ddeddfwrfa, ac roedd rhagor o astudiaethau achos **o brifysgolion yn Llundain a De Ddwyrain Lloegr.**

Dadansoddodd astudiaeth a gomisiynwyd gan **Gymdeithas Ddysgedig Cymru** astudiaethau achos a gyflwynwyd gan sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, sef cyfanswm o **273 o astudiaethau achos ar draws y naw prifysgol** (PDF, 5MB). Mae'r dadansoddiad newydd a gyflwynir yma yn awgrymu bod tua 7% (20 o 273) o holl astudiaethau achos sefydliadau addysg uwch Cymru yn cynnwys cyfeiriad at ymgysylltu â'r Cynulliad. O'r 273 o astudiaethau achos, **cafodd 25% (67) eu categoreiddio fel 'rhyngweithio â llunwyr polisi'** (PDF, 5MB). Roedd enghreifftiau yn y categori hwn yn cynnwys siapio trafodaethau ar bolisi a drafftio deddfwriaeth. Mae'r dadansoddiad newydd hwn yn awgrymu bod tua 30% (20 o 67) o'r astudiaethau achos Cymreig hyn a oedd yn cyfeirio at effaith sy'n gysylltiedig â pholisi yn cynnwys y Cynulliad.



**Trosolwg o Astudiaethau Achos Effaith REF 2014 sy'n cyfeirio at ymgysylltu â'r Cynulliad:** Briff Ymchwil

**Ffigur 1:** Canlyniad REF 2014: Sefydliadau Addysg Uwch y DU sy'n nodi effaith â Chynulliad Cenedlaethol Cymru



# Dulliau ymgysylltu â Chynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae'r adran hon yn amlinellu'r mecanweithiau y mae sefydliadau addysg uwch y DU wedi'u defnyddio i ymgysylltu â'r Cynulliad, fel y manylir arnynt yn yr astudiaethau achos. Nodwyd 37 digwyddiad effaith ar draws y 36 astudiaeth achos - amlinellwyd dau ddigwyddiad ymgysylltu ar wahân yn un o'r astudiaethau achos. Wrth ddarllen pob astudiaeth achos, rhoddwyd sylw i'r cwestiynau canlynol:

- Pa safle'r Cynulliad a oedd fwyaf cyffredin ar gyfer ymgysylltu?
- Beth oedd natur y digwyddiadau effaith hyn?
- Beth oedd y llwybrau mwyaf cyffredin ar gyfer cael effaith o ran y Cynulliad?
- A yw hyn yn amrywio yn ôl maes disgyblaeth?

Mae'r dulliau ymgysylltu a amlinellir yn y papur briffio hwn wedi'u cyfyngu i'r rhai a nodir yn yr astudiaethau achos effaith. Nid yw'r dadansoddiadau hyn yn adlewyrchu'r holl lwybrau posibl ar gyfer ymchwil i greu effaith yn y Cynulliad, ac nid ydynt yn adlewyrchu i ba raddau y mae meysydd y Cynulliad yn defnyddio gwaith ymchwil. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae'r Cynulliad bellach yn defnyddio gwaith ymchwil a chyfleoedd i ymgysylltu, gweler **Tudalennau Ymgysylltu Academaidd** y Cynulliad.


## Safleoedd ymgysylltu y Cynulliad

Pwyllgorau'r Cynulliad oedd y safle ymgysylltu yr adroddwyd amdano amlaf, gan fod 26 o'r 37 digwyddiad effaith yn digwydd yn y safle hwn o waith y Cynulliad (gweler Ffigur 2). Roedd Panel C (Gwyddorau Cymdeithasol) yn cynrychioli 58% o'r cyfraniadau a nodwyd i Bwyllgorau'r Cynulliad. Adroddwyd ynghylch ymgysylltu â dadleuon y Cynulliad bedair gwaith. Gan fod y dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar ymgysylltu â'r Cynulliad, dim ond achlysuron lle'r oedd y wybodaeth a gyflwynwyd gan Weinidog nad oedd yn Llywodraeth Cymru sydd wedi'u cynnwys yn y categori hwn. Cyfrannodd Panel D (y Celfyddydau a'r Dyniaethau) y mwyafrif o ddigwyddiadau effaith i'r safle hwn (gweler Ffigur 2). Roedd mwyafrif y categori 'arall' hefyd o Banel C, a oedd yn cynnwys ymgysylltu ag agweddau fel Comisiwn y Cynulliad ac Aelodau Cynulliad unigol. Cyfrannodd Panel C (Gwyddorau Cymdeithasol) at yr amrywiaeth fwyaf o waith y Cynulliad. Ar gyfer dau o'r digwyddiadau effaith, nid oedd yn glir pa safle'r Cynulliad y bu ymwneud ag ef.





**Ffigur 2.** Pwyllgorau'r Cynulliad oedd y safle ymgysylltu a gofnodwyd amlaf yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyfrannodd Panel C (Gwyddorau Cymdeithasol) at yr amrywiaeth fwyaf o safleoedd y Cynulliad.





Canfu dadansoddiad o astudiaethau achos, a gynhaliwyd gan POST, sy'n cyfeirio at Senedd y DU hefyd fod cyflwyniadau i bwyllgorau yn **Safle ymgysylltu academaidd a adroddir arno yn fwyaf cyffredin** (PDF, 719KB), ac yna Aelodau Seneddol unigol (ASau) neu Gyfoedion, pwyllgorau Biliau a Dadleuon.

## Dulliau ymgysylltu

Roedd naw o wahanol ddulliau ymgysylltu a nodwyd yn astudiaethau achos REF2014 a oedd yn cyfeirio at ymgysylltu â'r Cynulliad (gweler Ffigur 3). Rhoi tystiolaeth oedd y dull o ymgysylltu a nodwyd amlaf, sef 13 o'r 37 digwyddiad effaith (gweler Ffigur 3). Mae'r categori hwn yn cyfuno astudiaethau achos a gyfeiriodd at gyflwyno tystiolaeth lafar neu dystiolaeth ysgrifenedig. Dilynwyd hyn yn agos gan awgrymiadau uniongyrchol ar gyfer gwaith ymchwil, ac roedd 11 o ddigwyddiadau effaith a nodwyd. Roedd digwyddiadau effaith yn cael eu dosbarthu 'drwy drydydd parti' pe bai'r gwaith ymchwil gwreiddiol yn cael ei gyflwyno drwy gyfryngwr a oedd ar wahân i'r sefydliad addysg uwch a oedd yn cyflwyno tystiolaeth. Roedd 'enwi anuniongyrchol' yn cynnwys digwyddiadau effaith a oedd yn cynnwys dyfynnu adroddiad / prosiect a oedd yn cyfeirio at y gwaith ymchwil gwreiddiol, neu'n seiliedig arno. Cyfrannodd Panel C (Gwyddorau Cymdeithasol) at yr amrywiaeth fwyaf o ddulliau ymgysylltu (gweler Ffigur 3).

**Ffigur 3.** Rhoi tystiolaeth (ar lafar ac yn ysgrifenedig wedi'i gyfuno) yw'r dull ymgysylltu a adroddir amdano amlaf. Mae Panel C (Gwyddorau Cymdeithasol) yn defnyddio'r amrywiaeth fwyaf o ran dulliau ymgysylltu.




Dangosodd astudiaethau achos a oedd yn amlinellu ymgysylltiad â Senedd y DU batrwm tebyg: yr oedd y dull ymgysylltu a adroddwyd yn fwyaf cyffredin ar gyfer **ymchwil a nodir**, ac yna rhoi tystiolaeth, a thrwy drydydd parti. Adroddodd academyddion ynghylch ymgysylltu â Senedd y DU 23 o weithiau i gyd.


## 5.3 Llwybrau i ymgysylltu

Nodwyd 13 llwybr unigryw yn yr astudiaethau achos ar gyfer ymgysylltu â'r Cynulliad (nid oedd safle'r Cynulliad yn glir ar gyfer dau ddigwyddiad effaith; gweler Ffigur 4). O'r 13 hyn, y llwybr mwyaf cyffredin oedd rhoi tystiolaeth mewn Pwyllgor y Cynulliad, ac yna, naill ai cael ei ddyfynnu mewn allbwn sy'n ymwneud â Phwyllgorau'r Cynulliad neu mewn dadl gan y Cynulliad.



**Trosolwg o Astudiaethau Achos Effaith REF 2014 sy'n cyfeirio at ymgysylltu â'r Cynulliad:** Briff Ymchwil

**Ffigur 4.** Y 13 llwybr ymgysylltu unigryw a nodwyd yn yr 36 astudiaeth achos (ac eithrio'r ddau 'anhysbys'). Lluniwyd Ffigur 4 gan ddefnyddio RAW, yr offeryn delweddu ffynhonnell agored.



# Canlyniadau ymgysylltu â Chynulliad Cenedlaethol Cymru

Ar gyfer wyth o'r 36 astudiaeth achos, amlinellwyd hefyd ganlyniadau polisi neu ganlyniadau deddfwriaethol ymgysylltu â'r Cynulliad. Mae'r adran hon yn rhoi rhagor o fanylion am y canlyniadau hyn, gan gynnwys:

- Pa ganlyniadau polisi y manylwyd arnynt yn yr astudiaethau achos?
- Pa lwybr ymgysylltu a gysylltwyd yn bennaf â chreu canlyniadau sy'n gysylltiedig â pholisi?
- Pa faes / feysydd disgyblaeth a amlinellodd ganlyniadau sy'n gysylltiedig â pholisi o fewn y cyfnod REF diwethaf?

Mae'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â pholisi a nodir isod wedi'u cyfyngu i'r rhai a gynhwyswyd fel rhan o'r cyflwyniad astudiaeth achos. Nid yw'n adlewyrchu ehangder lawn y canlyniadau ar ôl ymgysylltu â'r Cynulliad. Er enghraifft, gallai'r 28 astudiaeth achos sy'n weddill fod wedi sicrhau canlyniadau polisi ers cyflwyno'r REF2014, fodd bynnag, mae hynny y tu hwnt i gwmpas y papur briffio hwn.

## Canlyniadau sy'n ymwneud â newidiadau i ddeddfwriaeth

Amlinellodd tair o'r wyth astudiaeth achos newidiadau i ddeddfwriaeth, gan gynnwys adolygu'r penderfyniad i weithredu deddfwriaeth, gweithredu deddfwriaeth newydd, a diwygio deddfwriaeth bresennol. Gellid olrhain y tri chanlyniad i ymgysylltu ag un o bwyllgorau'r Cynulliad. Roedd dwy astudiaeth achos yn deillio o Banel C (Gwyddorau Cymdeithasol) ac roedd un o Banel B (Peirianneg a Gwyddorau Ffisegol).

- Adolygu'r penderfyniad i weithredu deddfwriaeth: Arweiniodd gwaith **Ymchwil a gyflwynwyd gan Brifysgol Brighton** (PDF, 381KB) ar gyfer y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn 2010 at fod Llywodraeth Cymru ar yr adeg honno yn penderfynu peidio â chyflwyno deddfwriaeth ar fynediad i ddŵr mewndirol. Yn lle hynny, roedd Llywodraeth Cymru ar y pryd yn dilyn y 'dull gwirfoddol' i gael mynediad i ddŵr mewndirol.
- Gweithredu deddfwriaeth newydd: Cynhaliodd **Ymchwilydd o Brifysgol Oxford Brookes** (PDF, 208KB) adolygiad cyfundrefn safonol ar gyfer y Pwyllgor Safonau yn 2001. Yn sgîl yr adolygiad hwn, argymhellwyd y dylai swydd Comisiynydd Safonau gael pwerau a chyfrifoldebau uwch. Roedd y ddeddfwriaeth a oedd yn ofynnol i ganiatáu hyn wedi'i chynnwys yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006, a phenodwyd y Comisiynydd statudol cyntaf i'w swydd yn 2010.
- Diwygio deddfwriaeth arfaethedig: Lluniwyd Bil Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn sgîl **gwaith ymchwil gan Brifysgol Abertawe** (PDF, 47.6KB). Yn dilyn cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc a Phwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, diwygiwyd y Bil drafft i adlewyrchu canfyddiadau gwaith ymchwil. Yn ôl gwaith ymchwil Prifysgol Abertawe, nododd y gwelliant fod 'dyletswydd gyfreithiol derfynol' ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i ofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC).

## Canlyniadau sy'n ymwneud â pholisi

Roedd y pump astudiaeth achos a oedd yn weddill a arweiniodd at ganlyniadau sy'n gysylltiedig â'u hymgysylltu yn ymwneud â pholisi: sef, argymhellion polisi, gweithredu polisi newydd, a diwygio polisi presennol. Roedd pedwar o'r pum canlyniad yn gysylltiedig â Phwyllgorau'r Cynulliad. Roedd dau astudiaeth achos yn deillio o Banel C (Gwyddorau Cymdeithasol) a Phanel D (Celfyddydau a Dyniaethau), ac un o Banel A (Gwyddorau Bywyd).

- Argymhellion polisi - bioetheg: Cyflwynwyd gwaith **Ymchwil gan Brifysgol Caergrawnt** (PDF, 167KB) i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn cysylltiad ag ymchwiliad y Pwyllgor ar Fil Trawsblannu Dynol (Cymru) yn 2013. Roedd adroddiad y Pwyllgor yn cynnwys argymhellion ar gyfer eglurder wrth gyfathrebu ynghylch y newidiadau arfaethedig i system 'eithrio'.
- Argymhellion polisi - Llythrennedd yng Nghymru: Arweiniodd tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Diwylliant **gan Brifysgol Abertawe** (PDF, 55.4KB) yn 2003 at argymhelliad gan y Pwyllgor i greu 'Llyfrgell Cymru'. Darparodd Llywodraeth Cymru ar y pryd, arian ar gyfer y fenter hon.
- Argymhellion polisi - cyfraith gyhoeddus Cymru: Cyflwynwyd gwaith **Ymchwil gan Brifysgol Bangor** (PDF, 164KB) i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol mewn cysylltiad â'i ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân ar gyfer Cymru yn 2012. Nodwyd y canfyddiadau mewn perthynas â mynediad at gyfiawnder, sefydliadau cyfreithiol a'r proffesiwn cyfreithiol yn adroddiad y Pwyllgor ac roeddent yn sail i argymhelliad.

- Gweithredu polisi newydd: Arweiniodd tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Menter a Dysgu **gan Brifysgol Sheffield** (PDF, 235KB) yn 2008 at bolisi a oedd yn ymwneud â sgrinio cynnar ar gyfer dyslecsia mewn ysgolion cynradd.
- Diwygio polisi presennol: Arweiniodd cyhoeddi canlyniadau gwaith ymchwil **gan Brifysgol Bryste** (PDF, 298KB) yn 2010 ar effaith gwybodaeth am berfformiad ysgolion ar gynnydd disgyblion at ddadl yn y Cynulliad, a gofynnwyd cwestiynau i'r Prif Weinidog. Yn dilyn hynny, yn 2011, cyflwynwyd system newydd o gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad ysgolion.